Polisi Cymorth Cyntaf yn y Gwaith

1. **Cyflwyniad**
2. **Y sefyllfa gyfreitiol**
3. **Cyfrifoldebau staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf**
4. **Gweithdrefnau**
5. **Delio gydag ymwelwyr**
6. **Hyfforddiant**
7. **Offer Cymorth Cyntaf**

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n bolisi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) i sicrhau bod y trefniadau cymorth cyntaf priodol yn eu lle ar gyfer ein staff ac unrhyw un sy'n ymweld â'n safle. Gall ein staff sydd wedi cael eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf hefyd gynorthwyo pobl eraill yng nghyffiniau ein gwaith mewn argyfwng.

1.2 Mae ein trefniadau cymorth cyntaf yn cynnwys digon o weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gyfer ein hanghenion busnes ac er mwyn cynnal cyflenwad digonol o offer cymorth cyntaf a nwyddau traul. Rydym yn darparu gwybodaeth i staff er mwyn galluogi i gymorth cyntaf gael ei roi yn ystod oriau gwaith arferol a pan fo gwaith yn digwydd yn rheolaidd y tu allan i'r oriau hyn (Wardeiniaid, Plas Tan y Bwlch ac ati) bydd cymorth cyntaf digonol yn cael ei ddarparu.

2. Y sefyllfa gyfreithiol

2.1 Mae ein dyletswydd i ddarparu cymorth cyntaf yn y gwaith yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal asesiad o anghenion cymorth cyntaf er mwyn penderfynu pa gyfleusterau cymorth cyntaf a staff sy'n angenrheidiol i ddiwallu ein anghenion . Mae hefyd yn ofynnol i ni adolygu'r asesiad hwn o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, mae ein hasesiad wedi ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y canlynol:

- Y math o waith yr ymgymerir ag o
- Gosodiad eiddo
- Cefndir / hanes damweiniau
- Agosatrwydd at wasanaethau meddygol argyfwng
- Anghenion gweithwyr sy’n gweithio ar eu pennau eu hunain

Mae asesiadau risg wedi cael eu cynnal a gellir eu gweld ar yr Allrwyd Staff. Bydd y Pennaeth Personél yn cydlynu'r rhain ac yn trefnu adolygiadau.

3. Cyfrifoldebau staff cymorth cyntaf hyfforddedig

3.1 Er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol, mae gan y staff cymorth cyntaf hyfforddedig (Cymorth Cyntaf yn y Gwaith / REC) y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau canlynol.

Mae'r cynrychiolwyr cymorth cyntaf yn gyfrifol am:

Ymateb yn brydlon i bob cais am gymorth
Galw am gymorth pellach yn ôl yr angen
Ddarparu triniaeth o fewn cyfyngiadau eu cymhwysedd
Gofalu am y claf hyd nes eu bod wedi adfer neu pan fo cymorth meddygol pellach wedi cyrraedd
Adrodd am fanylion unrhyw driniaeth a roddwyd
Cynnal archwiliad misol o'r offer / cyfarpar cymorth cyntaf a'u hailgyflenwi yn ôl yr angen
Defnyddio'r technegau a ddangoswyd iddynt yn ystod eu hyfforddiant
Sicrhau eu bod yn gyfarwydd gyda'r technegau a'r datblygiadau diweddaraf mewn cymorth cyntaf
Cofnodi manylion y ddamwain / digwyddiad yn y llyfr damweiniau yn gywir ac anfon y wybodaeth at y Pennaeth Personél yn amserol.

3.2 Mae staff sydd wedi mynychu cwrs ymorth cyntaf sylfaenol yn gyfrifol am:

- Gynnal archwiliad misol o'r cyfarpar cymorth cyntaf a'u hailgyflenwi yn ôl yr angen
- Yn absenoldeb swyddog cymorth cyntaf, am gymryd y cyfrifoldeb pan fo person wedi cael anaf neu wedi mynd yn sâl
- Galw am ambiwlans lle bo angen.

4. Gweithdrefnau

4.1 Mae'r hyn sy'n dilyn yn weithdrefnau perthnasol i gymorth cyntaf sydd i'w dilyn gan bob aelod o staff:

- Os ydych yn ymwybodol bod gweithiwr wedi mynd yn sâl, neu wedi cael damwain, ffoniwch un o'n staff cymorth cyntaf am gymorth. Yn y Pencadlys mae'r bobl hyn wedi cael eu rhestru ar bosteri sydd i'w gweld wrth ymyl yr offer / cyfarpar cymorth cyntaf. Yn y Plas, cysylltwch â'r swyddog sydd ar ddyletswydd yn y Dderbynfa. Mae pob un o'r Wardeiniaid a'r Gweithwyr Stad yn swyddogion cymorth cyntaf yn yr un modd a'r Swyddogion Addysg, y Darlithydd a'r Swyddog Cymunedol.
- Os ydych angen cael mynediad at gyfarpar / offre cymorth cyntaf ar gyfer defnydd personol, gofynnwch am gymorth gan swyddog cymorth cyntaf.
- Peidiwch a symud y cyfarpar cymorth cyntaf o'i le dynoedig.
- Mae'n rhaid dweud / adrodd wrth eich Pennaeth Gwasanaeth ynghylch unrhyw golled neu niwed i'r cyfarpar / offer cymorth cyntaf.
- Mae aelodau unigol o staff sy'n dal cyfarpar / offer cymorth cyntaf yn gyfrifol am ailgyflenwi'r cynnwys o'r stoc a gedwir gan y tîm Gweinyddiaeth Ganolog.

5. Ymdrin ag ymwelwyr

5.1 Os cyfyd yr angen mae ein swyddogion cymorth cyntaf wedi cael eu hawdurdodi i roi cymorth cyntaf i ymwelwyr a'r sawl sydd yng nghyffiniau ein gweithleoedd / eiddo.

5.2 Petai ymwelydd yn teimlo'n sal neu'n cael damwain, yna dylai'r aelod o staff sy'n goruchwylio eu hymweliad ffonio am swyddog cymorth cyntaf. Os yw'r ymwelydd wedi cael damwain, mae'r swyddog cymorth cyntaf yn gyfrifol am sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud yn y llyfr damweiniau.

6. Hyfforddiant

6.1 Bydd gan yr holl swyddogion cymorth cyntaf dystysgrif cymorth cyntaf cyfredol. Hynny yw naill ai'r dystysgrif Cymorth Cyntaf HSE (y sefydliad Iechyd a Diogelwch) yn y Gwaith neu'r dystysgrif REC, pa un bynnag sydd fwyaf priodol.

6.2 Mae hyfforddiant yn cael ei drefnu gan y Gwasanaeth Personél sydd hefyd yn sicrhau bod swyddogion cymorth cyntaf yn mynychu cyrsiau ail gymhwyso fel y bo'n briodol.

7. Offer / Cyfarpar Cymorth Cyntaf

7.1 Gallwch ddod o hyd i focsys cymorth cyntaf yn y mannau hyn:

Pencadlys, Penrhyndeudraeth

- Fyny'r grisiau wrth y llungopiwr
- Cegin y tim rheoli
- Y dderbynfa

Plas Tan y Bwlch

Yr holl Ganolfannau Croeso

Holl ganolfannau Wardeiniaid a'r depos

Holl gerbydau'r awdurdod (gan gynnwys y car rhannu)

Mae gan y Wardeiniaid, y Swyddog Addysg, y Darlithydd a'r Swyddog Cymunedol becynnau maes ac ddylai'r rhain gael eu cario gyda hwy.

Medi 2016